PWYLLGOR ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Penodwyd Jeremy Gye Colman yn Archwilydd Cyffredinol Cymru o 1 Ebrill 2005 hyd 31 March 2010. Mae penodiadau'r dyfodol wedi'u cynnwys ym Mharagraff 1 o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol gael ei benodi gan Ei Mawrhydi ar enwebiad y Cynulliad.

2. Gwnaed y penodiad presennol cyn sefydlu trydydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ers hynny, mae adolygiadau mewn mannau eraill o'r DU wedi awgrymu y dylai penodiad Archwilydd Cyffredinol fod am gyfnod hwy na phum mlynedd i fod yn fwyaf effeithiol. Gyda blwyddyn olaf penodiad yr Archwilydd Cyffredinol presennol yn dynesu, bu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried hyd tymor swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3. Bu'r Pwyllgor Archwilio yn trafod y materion hyn yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2008. Cytunodd ei bod yn briodol, ar hyn o bryd, i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddal tymor swydd o wyth mlynedd ac na ddylai fod yn gymwys i sefyll am ail dymor. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ei bod yn briodol, o dan yr amgylchiadau, i ystyried ymestyn penodiad Archwilydd Cyffredinol presennol Cymru am 3 blynedd arall.

4. Mae Deddf Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad fod yn fodlon, cyn gwneud enwebiad o'r fath, bod ymgynghoriad rhesymol wedi'i gynnal gyda chyrff sy'n ymddangos i'r Cynulliad fel rhai sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol yng Nghymru. Felly ymgynghorodd y Pwyllgor Archwilio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i ymestyn y penodiad.

Argymhelliad

5. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan baragraff 1(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn enwebu Jeremy Gye Colman, sydd â'i dymor swydd presennol fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010, i'w benodi ymhellach gan Ei Mawrhydi i'r swydd honno am dymor a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013.

Jonathan Morgan AC
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio